GŴYL GEIRIAU WRECSAM

TAFLEN FLAEN PWY LADDODD?

Anfonwch y daflen flaen Pwy Laddodd? gyda'ch sgript.

Teitl sgript Pwy Laddodd:	

Manylion Personol

Enw			
Cyfeiriad			
Cod Post		E-bost	
Rhif ffôn neu ffôn symudol			

Manylion talu

Talwch eich ffi ymgeisio o £5.00 i'r cyfrif Gŵyl Geiriau Wrecsam

Enw'r Cyfrif	**Wrexham Carnival of Words**
Cod Didoli	**60-83-01**
Rhif y Cyfrif	**20480927**
Dyddiad talu ffi	

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon i olrhain eich cais i'r gystadleuaeth yn unig ac nid ar gyfer unrhyw ddibenion eraill.

Llofnod _____

Dyddiad _____

[Mae’r dudalen hon yn wag]

Gŵyl Geiriau Wrecsam

Cystadleuaeth Ysgrifennu Sgript Pwy Laddodd? 2023

Ar agor i ysgrifenwyr sydd wedi cyhoeddi ac sydd heb gyhoeddi, 16 oed a throsodd, gwahoddir ymgeiswyr i greu sgript fer Pwy Laddodd?, yn addas ar gyfer ei berfformio yn noson flynyddol Pwy Laddodd? Gŵyl Geiriau Wrecsam, Ebrill 2024.

Gofynnir i ymgeiswyr greu sgript gyda phedwar cymeriad a chyfaddefiad, ar gyfer dau gymeriad gwrywaidd a dau gymeriad benywaidd. Bydd angen paragraff ar wahân arnoch hefyd yn gosod golygfa'r llofruddiaeth a'r ymchwiliad, a ddylai gynnwys lleoliad y sgript, y cyfnod y'i gosodwyd, a gwybodaeth gefndir berthnasol arall. Bydd y sgript fuddugol yn cael ei berfformio gan bedwar actor amatur a fydd yn darllen/actio pob rhan yn nigwyddiad Pwy Laddodd?, Gŵyl Geiriau Wrecsam 2024. Bydd eich sgript ar gyfer pob cymeriad yn uchafswm o un ochr A4. Bydd cyfaddefiad ar wahân y llofruddiwr hefyd yn uchafswm o un ochr A4 ac yn ychwanegol at y rhannau pedwar cymeriad. Bydd y cyfaddefiad yn cynnwys rheswm a disgrifiad o sut cafodd y llofruddiaeth ei gyflawni a bydd yn cael ei ddarllen gan yr actor sy'n chwarae rhan y llofruddiwr ar ddiwedd y noson.

Mae'r gallu i ddenu'r gynulleidfa i'r dirgelwch llofruddiaeth wrth iddynt chwarae ditectif yn allweddol. Mae curadu'r cymeriadau yn eich sgript yn hanfodol i lwyddiant y plot, gyda'ch naratif yn ei gwneud yn glir i ble mae'r stori'n mynd. Eich dewis chi fel ysgrifennwr yw pa mor gynnil neu amlwg ydych chi am wneud y cliwiau. Fodd bynnag, dylai'r cliwiau hyn fod yn unol â phwy yw'r llofruddiwr a chofiwch ychwanegu un neu ddau o droeon annisgwyl!

Bydd y gystadleuaeth yn rhedeg o 1 Awst 2023 tan 29 Medi 2023.

Mae Gŵyl Geiriau Wrecsam yn hyrwyddo ac annog ysgrifennu o ansawdd gan ysgrifenwyr lleol brwdfrydig.

Bydd awdur y cais buddugol yn cael ei hysbysu yn y Flwyddyn Newydd gyda'r manylion yn cael eu cyhoeddi ar www.wrexhamcarnivalofwords.com ac yna llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Gŵyl Geiriau Wrecsam a Llyfrgelloedd Wrecsam wedi hynny.

Y Beirniad: Beirniad y gystadleuaeth fydd Simon McCleave, noddwr Gŵyl Geiriau Wrecsam ac awdur nofelau trosedd poblogaidd, a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

Y gwobrau: Bydd yr enillydd yn ennill gwobr o £100 a bydd y sgript yn cael ei berfformio yn Saesneg yn y noson Pwy Laddodd? fel rhan o Ŵyl Geiriau Wrecsam 2024, a bydd yr awdur buddugol yn derbyn pedwar tocyn am ddim i'r digwyddiad Pwy Laddodd? yn 2024 lle cânt eu cyflwyno â'r wobr.

I gymryd rhan:

- Dylai eich cais gael ei ysgrifennu'n Saesneg a bod yn sgript wreiddiol ac unigryw gennych chi a heb ei gyflwyno na'i berfformio yn unman arall mewn unrhyw gyfrwng.
- Mae'r holl gystadleuwyr yn cytuno, unwaith i ddarn o waith gael ei gyflwyno i'r gystadleuaeth hon, nid ellid ei gyflwyno i unrhyw gystadleuaeth arall na'i gyhoeddi tan (a) y bydd penderfyniad nad yw wedi ennill gwobr neu (b) ar ôl i enillydd y wobr gael ei ddatgelu.
- Ni ddylai eich sgript fod yn fwy na pum ochr o bapur A4, un ochr i bob cymeriad ac un ar gyfer y cyfaddefiad, wedi'i deipio gyda ffont maint 12 gan ddefnyddio bwlch llinell sengl ac ymylon arferol ynghyd â hanner tudalen yn gosod yr olygfa. Ni dderbynnir ceisiadau wedi'u hysgrifennu â llaw. Dylech sicrhau fod gennych deitl ar gyfer y sgript a dylech rifo pob

tudalen gyda'r cyfaddefiad ar dudalen 5. Bydd ceisiadau sydd tu hwnt i'r hyn a nodir yn cael eu diystyru.

- Bydd eich ymgais yn cael ei ysgrifennu yn ethos arddull dirgelwch llofruddiaeth traddodiadol ac yn addas i'w lwyfannu mewn llyfrgell gyhoeddus.
- Er mwyn cymryd rhan dylech dalu ffi na chaiff ei ad-dalu o £5 ar adeg cyflwyno eich sgript a dim ond un ymgais fesul unigolyn/grŵp.
- Argraffwch a danfonwch/posstiwch eich ymgais i Cystadleuaeth Dirgelwch Llofruddiaeth, Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu eich enw a manylion cyswllt ar eich cais a'r dyddiad y taloch eich ffi ar y taflen flaen. Ni fydd ceisiadau'n cael eu dychwelyd. Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno i Lyfrgell Wrecsam erbyn 5.00pm ar ddydd Gwener 29 Medi 2023. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- Fe fydd pob sgript yn cael ei rhoi ar restr fer gan ein panel profiadol. Yna bydd y rhestr fer yn cael ei anfon at y beirniad. Os fydd angen, mae Gŵyl Geiriau Wrecsam yn cadw'r hawl i newid y beirniad heb unrhyw rybudd.
- Bydd y ceisiadau sydd ar y rhestr fer yn cael eu hysbysu, a gall eu henwau gael eu cyhoeddi gan Ŵyl Geiriau Wrecsam mewn unrhyw fformat ac unrhyw gyfrwng, dim hwyrach na 30 Tachwedd 2023.
- Rhoddir gwybod i'r enillydd yn y flwyddyn newydd, 2024, ac fe gaiff ei h/enw ei gyhoeddi gan Ŵyl Geiriau Wrecsam mewn unrhyw fformat ac unrhyw gyfrwng.
- Trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, bydd holl ymgeiswyr yn rhoi caniatâd a holl hawliau priodol i Ŵyl Geiriau Wrecsam i gyhoeddi, hyrwyddo a pherfformio eu sgript ar gyfer unrhyw ddibenion y gystadleuaeth, gan gynnwys ar wefan Gŵyl Geiriau Wrecsam, y cyfryngau cymdeithasol, ac mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo a gyhoeddir gan Ŵyl Geiriau Wrecsam a gwasanaeth Llyfrgell Wrecsam. Mae Gŵyl Geiriau Wrecsam yn cadw'r hawl i wneud addasiadau i'r sgript er mwyn gwella'r perfformiad. Mae Gŵyl Geiriau Wrecsam yn cadw'r hawl i newid dyddiad y perfformiad.
- Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol. Ni cheir unrhyw gyfatebiaeth. Os nad oes sgript addas byddwn yn cadw'r hawl i berfformio sgript amgen ac ni fydd gwobr yn cael ei gyflwyno.
- Ni chaniateir i staff y llyfrgell na staff Gŵyl Geiriau Wrecsam gymryd rhan.
- Trwy gymryd rhan rydych wedi cytuno eich bod wedi darllen, deall a chytuno ar delerau ac amodau cystadleuaeth Gŵyl Geiriau Wrecsam.